

# Cwestiynau a ofynnir yn fynych yn y gweithdai

## Ymholiadau ynghylch cyllid a chaffael

**C1:** Os yw corff yn bartner mewn prosiect, beth yw'r gyfradd o ran cyfrannu arian neu gyfrannu ar ffurf arall?

**A:** Bydd CNC yn cyfrannu mwyafswm o 50% tuag at gyfanswm cost y prosiect, mae'n rhaid i'r 50% sy'n weddill fod ar ffurf arian cyfatebol. Mae'n rhaid i'r partner arweiniol gyfrannu 10% o arian glân heb gyfyngiadau tuag at gyfanswm cost y prosiect. Nid oes cyfradd gyfrannu benodedig ar gyfer y partneriaid eraill, ond i fod yn bartner mae'n rhaid i'r corff wneud *cyfraniad net* at y prosiect. Gall mwyafswm o 40% o gyfanswm cost y prosiect fod yn arian cyfatebol ar ffurf arall.

**Arian heb gyfyngiadau:** *Arian sy'n eiddo i'r corff ac mae'r corff yn gallu ei wario fel y gwêl orau heb gyfyngiadau ar sut y gwerir yr arian.*

**Arian glân:** *Arian nad yw'n cael ei ddefnyddio eisoes fel arian cyfatebol ar gyfer prosiect arall neu sy'n eiddo i gyllidwr arall.*

**C2:** Pa mor sicr y mae'n rhaid i'r arian cyfatebol fod yn y cyfnod Datganiad o Ddiddordeb?

**A:** Nid ydym yn disgwyl i'r pecyn arian cyfatebol fod yn barod gennych adeg cyflwyno eich Datganiad o Ddiddordeb. Fodd bynnag, os camwch ymlaen i'r cyfnod Cais Llawn ac os derbynnir eich cais, ni fyddwch yn gallu cyflwyno hawliad hyd nes eich bod wedi dangos bod eich arian cyfatebol yn barod.

**C3:** A oes unrhyw gyrrff nad ydynt yn gymwys i gyflwyno cais?

**A:** Ni all busnesau na mentrau preifat fod yn bartner arweiniol ond gallant gyfrannu arian cyfatebol naill ai ar ffurf arian parod neu ar ffurf arall. Ni allant elwa ar y prosiect. Os ydynt am gael eu talu am eu gwasanaethau, maent yn gyflenwr i'r prosiect ac mae'n rhaid caffael eu gwasanaethau yn unol â'r rheolau caffael cyhoeddus.

**C4:** A yw cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cyfrif fel arian cyfatebol 'glân' ac, os ydyw, a yw'r ymgeisydd arweiniol yn gallu ei ddefnyddio fel ei gyfraniad ariannol o 10%?

**A:** Byddai angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo defnyddio ei harian fel cyllid cyfatebol ar gyfer prosiect CNC; fodd bynnag dim ond rhan o'r cyfraniad arian cyfatebol o 40% a all fod yn arian Llywodraeth Cymru, a bydd yn rhaid i'r partner arweiniol ddarparu 10% o gyfanswm cost y prosiect trwy ddefnyddio ei arian glân ei hunan. Bydd yn rhaid i'r Adran Gyllid roi sylw unigol i unrhyw brosiectau a gyflwynir ag arian Llywodraeth Cymru fel arian 'cyfatebol' er mwyn sicrhau nad oes dim cyllido deuol yn digwydd a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol heb ddim goblygiadau o ran cymorth gwladwriaethol.

**C5:** Y cyfraniad ariannol o 10% – a oes rhaid i hwn ddod o arian y corff ei hun, neu a oes modd defnyddio grant neu roddion?

**A:** Byddai'n rhaid i'r cyfraniad hwn ddod o arian glân heb gyfyngiadau'r corff ei hun, a heb fod yn grant gan gorff arall, oni bai bod y grant yn gyfraniad at gronfeydd y corff heb unrhyw gafeatau. Mae cyfraniad ar ffurf amser staff yn gymwys. Fodd bynnag bydd amser staff a hawlir fel taliad

gan y prosiect yn amodol ar y rheolau recriwtio a chaffael, ac felly nid yw'n gymwys oni bai bod y swm yn llai na £5,000.

**C6:** Faint yw'r swm lleiaf a'r swm mwyaf y gall prosiectau gyflwyno cais amdanynt?

**A:** Lleiafswm gwerth prosiect yw £20,000, ac nid oes mwyafswm – ond byddai'n rhaid i brosiect fod yn eithriadol i gyflwyno cais am y £3 miliwn yn llawn.

**C7:** A ellid defnyddio arian cyfatebol o arian grant arall fel arian lluosogi ar gyfer hyn? Byddai hyn yn berthnasol i arian a roddwyd yn benodol i'r diben hwn.

**A:** Mae'n rhaid i'r 10% fod yn arian glân heb gyfyngiadau. Byddai'n rhaid inni roi sylw i hyn fesul achos er mwyn sicrhau nad oes dim cyllido deul yn digwydd, a byddai'n rhaid cael cadarnhad gan y darparwr grant arall y gellid defnyddio'r arian hwnnw i'r diben hwn ac fel rhan o'r cyfraniad cyfatebol o 40% ar gyfer y prosiect a gyllidir gan CNC.

**C8:** Staffio. A allwn ni ddefnyddio'r arian i gyllido swydd yn rhannol? Ac os felly, a fyddai'n rhaid inni hysbysebu'r swydd yn allanol?

**A:** Byddai'n rhaid ichi ddarparu tystiolaeth ynghylch yr amser a dreulid yn gweithio'n uniongyrchol ar y prosiect drwy ddefnyddio taflenni gwaith. Mae'n rhaid i'r swydd gael ei chynnig drwy gystadleuaeth deg ac agored. Hefyd byddai'n rhaid ichi ddangos tystiolaeth ynghylch beth y byddai'r unigolyn yn ei wneud pan na fyddai'n gweithio ar y prosiect, h.y. profi ychwaneged.

**C9:** O ran y cydsyniadau, y costau cynllunio ac yn y blaen y gallai'r ymgeisydd eu hysgwyddo cyn cyflwyno'r cais, a oes modd hawlio'r rhain yn ôl neu eu defnyddio ar ffurf arall?

**A:** Nac oes, nid yw gwariant cyn cychwyn ar y prosiectau yn gymwys. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw'r gwariant hwnnw.

**C10:** Os ydym am ddefnyddio arian ac amser gan ffermwyr fel arian cyfatebol, mae'n bosibl na fyddwn yn cael hyn tan hanner ffordd drwy'r prosiect – a ydym yn gallu defnyddio hyn fel arian cyfatebol?

**A:** Mae arian ac amser gan ffermwyr yn gymwys fel rhan o'r cyfraniad cyfatebol o 40%; fodd bynnag mae'n rhaid pennu'r costau, ac mae'n rhaid bod yr arian cyfatebol ar gael ac wedi ei gadarnhau cyn eich hawliad cyntaf, felly byddai'n rhaid ichi ddod o hyd i arian cyfatebol o ffynonellau eraill neu ysgwyddo'r costau hyd nes y byddech yn cael yr arian cyfatebol gan y ffermwr.

**C11:** A yw'r amser a roddir gan ymddiriedolwyr i brosiect yn gymwys fel Arian Cyfatebol?

**A:** Ydyw, os yw'n gost uniongyrchol i'r prosiect neu'n unol â'r gyfradd wirfoddoli berthnasol (h.y. os yw'r gwaith yn cyfrannu'n uniongyrchol at y prosiect) ond nid ydyw'n gymwys os yw'n amser a roddwyd i gyflawni rôl gyffredinol ymddiriedolwr. Byddai angen ichi brofi bod y gwaith yn ychwanegol at y rôl gyffredinol (drwy daflenni amser) a byddem ond yn disgwyl cyfraniad bychan gan ymddiriedolwyr.

**C12:** A ydym yn gallu defnyddio arian CNC fel arian cyfatebol ar gyfer prosiect Interreg?

**A:** Ydych, yn amodol ar ein prosesau dethol a diwydrwydd dyladwy arferol. Byddai arnoch angen cael cadarnhad gan Interreg fod yr arian yn dderbyniol fel arian cyfatebol.

**C13:** A yw CNC yn gallu rhoi cyfarwyddyd ynghylch atebolrwydd i'r corff arweiniol?

**A:** Y partner arweiniol nid CNC sy'n atebol; manylir ar hyn yn nhelerau ac amodau'r llythyr cynnig y bydd angen ichi ei dderbyn. Gall CNC ddarparu templed i'ch helpu i lunio cytundeb gyda'ch partneriaid.

**C14:** Os cyflwynwn ni nifer o Ddatganiadau o Ddiddordeb, a oes yn dal i fod angen cyfraniad o 10% ar gyfer pob Datganiad o Ddiddordeb ac a oes angen i bob un fod yn £20,000 neu fwy?

**A:** Ymdrinnir â phob Datganiad o Ddiddordeb yn unigol ac felly mae'n rhaid i bob un ohonynt fodloni'r meini prawf o ran bod yn gymwys, sef 10% gan yr Ymgeisydd Arweiniol tuag at y prosiect e.e. bydd angen cael cyfraniad o £2,000 gan yr ymgeisydd ar gyfer Datganiad o Ddiddordeb ynghylch prosiect sy'n costio £20,000. Efallai y byddai'n werth ystyried a yw'n un prosiect sydd â 2 elfen - a fyddai angen un Datganiad o Ddiddordeb - neu a yw'n 2 brosiect ar wahân a fyddai angen 2 Ddatganiad o Ddiddordeb.

**C15:** Pam y mae angen cael cyfraniad ariannol o 10% gan y partneriaid arweiniol – mae hyn yn hynod o gyfyngol.

**A:** Er mwyn rhoi gwedd gliriach ar hyn, mae'n rhaid i'r cyfraniad o 10% ddod o arian glân heb gyfyngiadau sy'n eiddo i'r partner arweiniol i'w ddefnyddio fel y mynno. Mae hyn yn sicrhau hyfywedd ariannol y corff arweiniol i arwain y prosiect. Os ydych yn ansicr ynghylch a yw eich arian cyfatebol yn unol â'r diffiniad hwn, cysylltwch â ni.

**C16:** Costau staff – a oes rhaid inni brofi bod staff y prosiect wedi eu recriwtio'n unswydd?

**A:** Os ydych yn defnyddio amser staff fel arian cyfatebol nid oes rhaid ichi recriwtio staff yn benodol ar gyfer y prosiect; fodd bynnag mae'n rhaid ichi brofi bod ychwaneged drwy ddefnyddio taflenni amser. Os ydych yn hawlio amser staff h.y. yn defnyddio grant CNC (arian cyhoeddus) i dalu am amser staff, mae'n rhaid hysbysebu'r rôl yn benodol ar gyfer y prosiect a recriwtio yn unol â'r gofynion cyfle cyfartal.

**C17:** Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cydweithredu a chaffael?

**A:** Mae'n bosibl y byddwch yn meddwl, wrth roi eich prosiect at ei gilydd, yr hoffech weithio mewn partneriaeth gyda chorff arall, gan fod gweithio mewn partneriaeth yn gallu bod yn fanteisiol mewn sawl ffordd; fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried a yw'r berthynas yn bartneriaeth neu a yw mewn gwirionedd yn drefniant caffael.

### **Caffael – talu am nwyddau neu wasanaethau**

Os yw corff neu bartner arweiniol yn darparu nwyddau neu wasanaethau i'r prosiect, ac yn disgwyl cael tâl yn hytrach na bod hynny yn gyfraniad at y prosiect, mae hynny'n drefniant caffael. Gan fod

yr arian dan sylw yn arian cyhoeddus, mae'n rhaid i unrhyw nwyddau neu wasanaethau a brynir â'r arian grant hwn gydymffurfio â'r rheolau caffael cyhoeddus yn unol â thelerau ac amodau eich cynnig grant. Mae'n rhaid ichi amlygu bod cystadleuaeth agored a thryloywder a hefyd eich bod wedi ystyried sicrhau gwerth yr arian wrth roi contractau. Mae'r trothwyon caffael cyhoeddus fel a ganlyn:

Llai na £5,000 – Un dyfynbris ysgrifenedig

Mwy na £5,000 – Tri dyfynbris ysgrifenedig

Mwy na £25,000 – Ymarfer tendro (GwerthwchiGymru)

### **Partneriaeth – cyfrannu at brosiect**

Er mwyn gallu cydweithredu, mae'n rhaid i bob partner gyfrannu at brosiect - boed y cyfraniad hwnnw'n arian neu'n amser staff. Ni thelir pris i bartneriaid am eu gwasanaethau; cânt eu had-dalu am eu hunion gostau o ganlyniad i'r prosiect, a hynny ar ôl dilyn prosesau caffael neu recriwtio. Byddai amser eu staff presennol yn rhan o'u cyfraniad at y prosiect.

**C18:** Mae'n ofynnol gan y rheolau caffael cyhoeddus i'r cyfnod caffael fod yn o leiaf 12 wythnos – mae hynny'n rhy hir i'r rownd hon.

**A:** A fyddwch cystal â nodi'r trothwyon caffael cyhoeddus:

Llai na £5,000 – Un dyfynbris ysgrifenedig

Mwy na £5,000 – Tri dyfynbris ysgrifenedig

Mwy na £25,000 – Ymarfer tendro (GwerthwchiGymru)

Dim ond ar gyfer prynu rhywbeth sy'n fwy £25,000 y mae'n ofynnol cynnal ymarfer tendro ffurfiol.

**C19:** Os yw corff masnachol yn cyfrannu arian at brosiect, a oes modd defnyddio'r arian hwnnw fel Arian Cyfatebol?

**A:** Oes. Fodd bynnag, mae'n rhaid cymryd gofal i sicrhau nad yw'r corff preifat yn cael budd ariannol o'r prosiect.

**C20:** Beth yw atebolrwydd y partneriaid arweiniol o ran cynnal a chadw ac o ran asedau os bydd un o'r partneriaid yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr?

**A:** Y partner arweiniol sy'n atebol. Fodd bynnag, gallwn ddarparu templed i'ch helpu i lunio cytundeb, os oes angen, er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar gyfer materion o'r fath petai partner yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.